Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf atoch i gwyno am ddiffyg sylw darpariaeth newyddion Saesneg BBC Wales am gyhoeddiad hanesyddol Llywodraeth Cymru ar 12 Mawrth eleni am y bwriad i sefydlu Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu i Gymru, yn seiliedig ar rai o argymhellion adroddiad 'Dyfodol Newydd ar gyfer Darlledu a Chyfathrebu yng Nghymru' Mel Doel a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones a gyhoeddwyd fis Awst y llynedd.

Cafodd y cyhoeddiad sylw gan BBC Cymru Fyw, ond ddim gan y wefan gyfatebol yn Saesneg. Canlyniad hyn yw mai dim ond Cymry Cymraeg fydd wedi clywed y cyhoeddiad pwysig hwn, ac na fydd bydd Cymry uniaith Saesneg yn ymwybodol o'r datblygiad.

I waethygu'r sefyllfa, fe wnaeth gwefan Saesneg BBC Wales News adrodd ddiwedd mis Medi y llynedd *na fyddai* corff o'r fath yn cael ei sefydlu. Yn wir, yr oll mae defnyddwyr eich darpariaeth uniaith Saesneg yn ei wybod yw na fydd y Corff yn cael ei sefydlu. Fe gwestiynon ni ddilysrwydd y stori ar y pryd ond ni dderbynion ni unrhyw dystiolaeth i egluro ei sail. Fe fyddwch yn deall felly pam ein bod yn pryderu cymaint am y diffyg sylw a roddwyd i'r datblygiad diweddaraf, sydd yn gyhoeddiad swyddogol, cywir.

Yn ein barn ni, mae hyn yn dilyn patrwm o ddiffyg didueddrwydd y BBC tuag at y ddadl ynghylch datganoli darlledu, a hynny mewn maes sy'n effeithio ar fuddiannau'r gorfforaeth yn uniongyrchol.

Mae arwyddocâd sefydlu'r Corff yn sylweddol gan y bydd – fel mae'r Llywodraeth ei hun yn ei gydnabod – yn mynd i'r afael â "diogelu darlledu cyhoeddus a gwella amgylchedd y cyfryngau yn gyffredinol yng Nghymru." Fel mae'r Llywodraeth hefyd yn ei gydnabod, mae sefydlu'r corff yn garreg filltir bwysig yn y broses o ddatganoli darlledu, a fyddai'n ddatblygiad gwbl drawsnewidiol i'r cyfryngau yng Nghymru.

Wrth gwrs, byddai sefydlu'r Corff - yn ogystal â datganoli darlledu - yn effeithio ar ddyfodol y BBC yn uniongyrchol, sy'n golygu bod triniaeth deg o'r mater gennych hyd yn oed yn bwysicach.

Gofynnwch chi i unioni'r sefyllfa drwy roi sylw i sefydlu'r corff ar eich llwyfannau Saesneg ar fyrder felly.

Yn gywir,

Mirain Owen

Is-gadeirydd Grŵp Digidol Cymdeithas yr Iaith